Dengys tystiolaeth mai llaeth ffres y fron y fam* yw'r maeth pwysicaf a'r mwyaf effeithiol sydd ar gael ar gyfer babanod cynamserol.



Mae gan eich llaeth y fron ran hanfodol i'w chwarae o ran amddiffyn perfedd eich babi cynamserol rhag enterocolitis sy'n peri necrosis, cyflwr difrifol y berfedd sydd, yn anffodus, mewn rhai achosion, yn medru arwain at farwolaeth.
Mae hefyd yn helpu ei ymennydd, ei system imiwnedd, ei lygaid a'i ysgyfaint. Ar gyfer babanod cynamserol, mae llaeth y fron yn gysylltiedig â datblygiad gwell wrth i'r babi dyfu (mae datblygiad yn cynnwys sgiliau fel cerdded, cydsymud, lleferydd).

Mae pob diferyn yn cyfrif

Mae pob mililitr o laeth y fron y fam yn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau babanod cynamserol.

Mae pob babi, ni waeth pa mor gynnar na pha mor sâl, yn gallu derbyn colostrwm ei fam (llaeth cynnar arbennig y fron) i'w cegau.

Mae eich llaeth y fron wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer eich babi o ran maeth, yr iechyd perfedd gorau ac imiwnedd.

*Mae'r geiriau mam a mamau wedi'u defnyddio drwy gydol y daflen hon gan mai dyma'r ffordd y bydd y mwyafrif o'r rhai sy'n feichiog ac yn cael babi yn uniaethu. At ddibenion y daflen hon, mae'r term hwn yn cynnwys merched. Mae hefyd yn cynnwys pobl nad yw eu hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfateb i'w rhyw genedigol neu bobl a all fod â hunaniaeth anneuaidd. (nmc.org.uk: safonau-hyfedredd-ar-gyfer-bydwragedd.pdf)

Darparu llaeth y fron i'ch babi

Os caiff eich babi ei eni cyn amser, fe'ch anogir i dynnu llaeth iddo yn fuan iawn ar ôl ei eni.

Er y gall hyn fod yn llethol ac yn dipyn i ymdopi ag ef, bydd y bydwragedd, y nyrsys a'r arbenigwyr bwydo wrth law i siarad â chi a'ch helpu i dynnu, storio a rhoi llaeth y fron i'ch babi. Mae'r daflen hon wedi'i llunio i rannu rhywfaint o'r wyddoniaeth y tu ôl i fuddion llaeth y fron ar gyfer babanod cynamserol.

Pryd allaf ddechrau tynnu llaeth y fron ar gyfer fy mabi?

Er y gallech roi genedigaeth yn gynnar, bydd eich corff yn dal i allu gwneud llaeth y fron, ond bydd angen i'ch bronnau gael eu hysgogi drwy dynnu llaeth yn rheolaidd er mwyn dechrau cynhyrchu a pharhau i gynhyrchu llaeth y fron.

Tynnu llaeth cyn i'ch babi gael ei eni

Gallwch ddechrau tynnu llaeth y fron i'ch babi cyn iddo gael ei eni hyd yn oed. Rhaid i chi drafod hyn gyda'ch meddyg neu'ch bydwraig cyn i chi ddechrau gan **mai dim ond pan fyddwch yn sicr y byddwch yn rhoi genedigaeth i'ch babi yn yr ychydig oriau nesaf y dylech dynnu llaeth cyn rhoi genedigaeth**.

Gallwch drafod hyn gyda'r tîm obstetrig a bydwreigiaeth i gefnogi'ch penderfyniad.

- Gellir tynnu llaeth cyn rhoi genedigaeth â llaw neu gan ddefnyddio pwmp. Mae tynnu llaeth yn ysgogi eich bronnau fel bod llaeth ar gael ar adeg genedigaeth. Byddai hyn yn golygu y gall eich llaeth y fron fod yn un o'r triniaethau cyntaf (a phwysicaf) y mae eich babi yn eu cael.



Tynnu ar ôl i'ch babi gael ei eni

- Mae tystiolaeth yn dangos os gallwch **dynnu llaeth o fewn yr awr neu ddwy gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth**, bydd eich cyfaint llaeth ddwywaith yn fwy ymhen saith diwrnod (o gymharu â phe baech yn aros am gyfnod hwy na dwy awr ar ôl rhoi genedigaeth), ac mae'r gwahaniaeth hwn yn parhau am o leiaf pedair wythnos.

Amlder tynnu llaeth:

- Pan fo'n bosibl, bydd cael cymaint o gyswllt croen wrth groen â'ch babi yn helpu i gynhyrchu llaeth.
- Ceisiwch dynnu llaeth **wyth i ddeg gwaith ym mhob 24 awr**; gall staff helpu gyda thynnu llaeth gyda llaw a gan ddefnyddio'r pwmp.
- Mae **tynnu llaeth yn ystod y nos** yn bwysig oherwydd dyna pryd mae'r derbynyddion hormonau fwyaf parod i ysgogi llaeth i gael ei gynhyrchu. Er bod hyn yn heriol, bydd yn helpu i wneud eich cyflenwad yn sefydlog. Efallai y bydd angen i chi osod larwm gan fod tynnu llaeth yn y nos yn bwysig i helpu i ysgogi llaeth i gael ei gynhyrchu.
- Gall fod yn rhwystredig pan mai ond ychydig iawn o laeth sy'n dod allan i ddechrau, ond bydd y gwaith ysgogi hwn yn bwysig fel bod llaeth y fron yn cael ei gynhyrchu'n sefydlog. **Mae pob diferyn o laeth y fron yn cyfrif ac yn rhoi maetholion pwysig i'ch babi.**

Cynyddu cyflenwad llaeth y fron:

Weithiau, er gwaethaf tynnu llaeth yn rheolaidd, gall eich cyflenwad llaeth ddechrau prinhau. Mae croeso i chi siarad â ni am hyn, ond mae yna hefyd bethau yr ydym yn argymell eich bod yn eu gwneud i helpu i gynyddu'ch cyflenwad o laeth y fron:

- Cynyddu'r amser cyswllt croen wrth groen gyda'ch babi (bydd staff yn rhoi cymorth i chi gyda hyn).
- Tynnu llaeth ger eich babi, meddwl am eich babi, ac edrych ar luniau o'ch babi wrth i chi dynnu llaeth.
- Rhoi cadachau mwslin neu ddillad sydd wedi bod yn agos atoch chi i'ch babi. Bydd y babi yn cael ei gysuro gan eich arogl a gallwch gyffwrdd ac arogli rhywbeth y mae eich babi wedi bod yn agos ato pan fyddwch yn tynnu llaeth.
- Gofalu amdanoch chi'ch hun trwy sicrhau eich bod yn yfed digon o ddŵr, bwyta'n dda a gorffwys pan allwch.
- Cynyddu amlder y cyfnodau pan fyddwch yn tynnu llaeth: ceisiwch dynnu llaeth â llaw a gan ddefnyddio'r pwmp.
- Gwirio bod y pwmp yn eich ffitio'n dda. Mae gorchuddion o wahanol feintiau ar gael a gallwch ofyn i un o'r staff eich helpu i wirio bod yr un iawn gennych.

Rhoddwr llaeth y fron

Eich llaeth ffres y fron yw'r maetholyn pwysicaf i'w roi i amddiffyn babanod cynamserol. Lle bo'n bosibl, rydym yn osgoi rhoi fformiwla i fabanod cynamserol neu sydd â phwysau isel pan gânt eu geni gan y gall gynyddu'r risg o gymhlethdodau difrifol iawn yn y perfedd (EnteroColitis sy'n peri necrosis), yn ogystal â phroblemau yn y llygaid a'r ysgyfaint. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'ch cefnogi i gynhyrchu eich llaeth y fron eich hun i'w roi i'ch babi, ond pan fo angen, er enghraifft tra bod cyfaint eich llaeth yn cynyddu, byddwn yn cynnig Llaeth y Fron gan Roddwr i bob babi sydd â chyfnod beichiogrwydd o lai na 32 wythnos neu sydd yn pwyso llai na 1.5kg, gyda'ch cytundeb. Mae Llaeth y Fron gan Roddwr yn gynnyrch wedi'i basteureiddio a geir o fanc llaeth y fron ac sydd wedi'i reoleiddio'n llym.

Os oes angen cymorth pellach arnoch gyda bwydo, gofynnwch i'ch bydwraig neu nyrs eich babi gysylltu â'ch Arbenigwyr Bwydo Babanod lleol.

GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Appendix 9. Magnesium Sulphate Leaflet (English)

Page 1 and 4



Page 2 and 3

This leaflet has been written to give you information about a medicine called magnesium sulphate.
Magnesium sulphate (MgS04) is offered to mothers who are likely to give birth to their baby earlier than 30 weeks (and in some cases earlier than 34 weeks) as it can protect some babies against developing cerebral palsy.

You have been given this leaflet to read as either a decision has been made by the doctor that your baby needs to be born early, or you have gone into premature labour and it is believed that having the magnesium sulphate would be of benefit to you and your unborn baby.

What is cerebral palsy?

Cerebral palsy is a general term describing conditions that cause problems with movement. It is caused by harm to the brain at any stage of development and there is a higher risk of this when a baby has been born prematurely. About 1 in 10 babies who are born before 30 weeks develop a form of cerebral palsy.

It may also be of some benefit for babies who are born between 30 and 34 weeks gestation, but we are less sure of how much it would reduce the risk of cerebral palsy developing.



What can be done to prevent cerebral palsy?

Unfortunately, we do not know how to stop babies developing cerebral palsy. We do know that giving magnesium sulphate to women whose baby may be born prematurely can reduce inflammation of the brain and reduce the risk that their baby will develop cerebral palsy by 30%.

What are the risks of taking magnesium sulphate?

Mothers who are given magnesium sulphate may experience some short-term effects. The most common side effect is feeling very hot and can make you feel sick at the start of taking the medicine. You may also get a headache. These side effects disappear very quickly. You will be monitored for the less common side effects, such as low blood pressure or problems with your breathing.

There are no known risks to a premature baby when the mother is given magnesium sulphate.

How will I be given magnesium sulphate?

The doctor or midwife will insert an intravenous canula / drip in your arm. The first dose will be given to you as a single amount over 10 to 20 minutes and then a second dose may be given to you continuously for up to 24 hours via an electronic pump. You will be monitored closely throughout. If you do not have your baby within the following 24 hours, the team may consider giving you another dose of magnesium sulphate.

Do I have to have magnesium sulphate?

You do not have to accept this treatment and your decision will not affect the care you and your baby receive.

Appendix 10.Magnesium Sulphate leaflet (Welsh)

Page 1 and 4

4

Ydy pob mam yn cael cynnig sylffad magnesiwm?

Efallai na fydd magnesiwm sylffad yn addas i bob mam. Bydd eich meddyg a'ch bydwraig yn trafod hyn gyda chi. Gallwch ofyn cwestiynau iddynt am sut y gall magnesiwm sylffad amddiffyn eich baban.

Mae angen rhoi magnesiwm sylffad rywbryd o fewn y 24 awr cyn rhoi genedigaeth er mwyn iddo gael effaith lawn, ond gall dal fod yn fuddiol os caiff ei roi ar unrhyw adeg cyn geni. Os oes angen geni eich baban ar frys (o fewn yr awr) yna efallai na fyddwch chi'n cael y cwrs llawn o fagnesiwm sylffad neu efallai na fydd rhoi magnesiwm sylffad yn opsiwn.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am enedigaeth gynamserol a beth mae hyn yn ei olygu i fy maban?

Gallwch siarad â'ch meddyg a'ch bydwragedd i gael rhagor o wybodaeth am fagnesiwm sylffad, geni cyn amser a beth mae hyn yn ei olygu i'ch baban.

Mae'n bwysig eich bod yn teimlo bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud y penderfyniadau cywir ar eich cyfer chi a'ch baban.

Gallwch hefyd ofyn i'ch bydwraig drefnu i chi gwrdd ag aelod o'r tîm newyddenedigol (meddyg babanod newydd-anedig) a all ateb eich cwestiynau am yr hyn y gallwch ddisgwyl fydd yn digwydd i'ch baban pan gaiff ei eni. Efallai y byddwch hefyd yn gallu ymweld â'r Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig i weld lle bydd eich baban yn derbyn gofal ar ôl ei eni.

RHAGOR O WYBODAETH

Rhif ffôn Bliss: 0500 618 140 – Galwadau am ddim o linellau tir

Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00am a 9:00pm Gwefan: www.bliss.org.uk

Mae Bliss, yr elusen gofal arbennig babanod, yn darparu gwybodaeth cynhwysfawr a chymorth i deuluoedd babanod cynamserol a sâl.

1

Magnesiwm Sylffad yn ystod beichiogrwydd

Diogelu ymennydd babanod sy'n cael eu geni'n gynnar.

GIG CYMRU NHS WALES

Page 2 and 3

2

Ysgrifennwyd y daflen hon i roi gwybodaeth i chi am feddyginiaeth o'r enw magnesiwm sylffad.

Mae magnesiwm sylffad (MgS04) yn cael ei gynnig i famau sy'n debygol o roi genedigaeth i'w baban yn gynharach na 30 wythnos (ac mewn rhai achosion yn gynharach na 34 wythnos) gan y gall amddiffyn rhai babanod rhag datblygu parlys yr ymennydd.

Rydych wedi cael y daflen hon i'w darllen gan fod naill ai penderfyniad wedi'i wneud gan y meddyg bod angen i'ch baban gael ei eni'n gynnar, neu eich bod wedi dechrau geni'n gynamserol a chredir y byddai cael y magnesiwm sylffad o fudd i chi ac eich baban heb ei eni.

Beth yw parlys yr ymennydd?

Mae parlys yr ymennydd yn derm cyffredinol sy'n disgrifio cyflyrau sy'n achosi problemau symud. Mae'n cael ei achosi gan niwed i'r ymennydd ar unrhyw gam datblygiad ac mae risg uwch o hyn pan fydd baban wedi'i eni'n gynamserol. Mae tua 1 o bob 10 baban sy'n cael eu geni cyn 30 wythnos yn datblygu math o barlys yr ymennydd.

Gall hefyd fod o rywfaint o fudd i fabanod sy'n cael eu geni rhwng 30 a 34 wythnos o feichiogrwydd, ond rydym yn llai sicr o faint y byddai'n lleihau'r risg o ddatblygu parlys yr ymennydd.



3

Beth ellir ei wneud i atal parlys yr ymennydd?

Yn anffodus, ni wyddom sut i atal babanod rhag datblygu parlys yr ymennydd. Rydyn ni'n gwybod y gall rhoi magnesiwm sylffad i fenywod lle mae risg o'u baban yn cael ei eni'n gynamserol leihau llid yr ymennydd a lleihau'r risg y bydd eu baban yn datblygu parlys yr ymennydd 30%.

Beth yw'r risgiau o gymryd magnesiwm sylffad?

Gall mamau sy'n cymryd magnesiwm sylffad brofi rhai effeithiau tymor byr. Y sgil effaith mwyaf cyffredin yw teimlo'n boeth iawn a gall wneud i chi deimlo'n sâl pan fyddwch yn dechrau cymryd y feddyginiaeth. Efallai y byddwch hefyd yn cael cur pen. Mae'r sgîl-effeithiau hyn yn diflannu'n gyflym iawn. Byddwch yn cael eich monitro am y sgîl-effeithiau llai cyffredin, fel pwysedd gwaed isel neu broblemau anadlu.

Nid oes unrhyw risgiau hysbys i'r baban cynamserol pan roddir magnesiwm sylffad i'r fam.

Sut fydda i'n cymryd y magnesiwm sylffad?

Bydd y meddyg neu'r fydwraig yn gosod canwla mewnwythiennol / diferwr yn eich braich. Rhoddir y dos cyntaf i chi dros 10 i 20 munud ac yna gellir rhoi ail ddos i chi yn barhaus am hyd at 24 awr trwy bwmp electronig. Byddwch yn cael eich monitro'n ofalus drwy'r amser. Os na chewch eich baban o fewn y 24 awr ganlynol, efallai y bydd y tîm yn ystyried rhoi dos arall o fagnesiwm sylffad i chi.

Oes rhaid i mi gymryd y sylffad magnesiwm?

Nid oes rhaid i chi dderbyn y driniaeth hon ac ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar y gofal rydych chi a'ch baban yn ei dderbyn.

Appendix 11. Probiotics for Babies Born Preterm (English)

Page 1 and 4.



Page 2 and 3

2

Who is this leaflet for?


This information is for parents of babies who are born **before 32 weeks gestation**, or before 37 weeks gestation and weighing less than 1500g, who will receive probiotics as part of their neonatal care.

What are probiotics?

Probiotics are supplements that contain friendly bacteria which **increase survival** in babies born preterm. Probiotics **help to protect against a serious gut condition,** called necrotising enterocolitis (NEC), that can be associated with being born preterm.

NEC is a serious life-threatening condition where the gut tissue becomes inflamed and infected causing babies to become very unwell and sometimes require surgery. Babies who develop NEC face higher risks of long-term developmental problems.

What are the benefits of probiotics?



3

How are probiotics given?

Probiotics are given as a small amount of liquid by mouth, or through your babies feeding tube, into their tummy. It is given once a day until your baby reaches 34 weeks corrected age.

How do probiotics work?

Babies born early are at risk of developing abnormal patterns of harmful bacteria in their gut for a variety of reasons compared to babies born at term. Probiotics encourage the development of healthy patterns of gut bacteria.

Encouraging the development of the right bacteria in your baby's gut soon after birth helps protect against NEC.

Use of an appropriate probiotic after birth is

- **Safe for your baby**
- **Proven to benefit babies born early**

What are the potential risks of probiotics?

There is a very small risk of severe infection caused by the probiotic bacteria themselves. The significant benefits for preterm babies receiving probiotics, in terms of improved survival and protection against NEC, outweighs this very small risk.

There are lots of studies that show probiotics are beneficial for babies born very small and very preterm. However, these studies have not included many babies born at 22 and 23 weeks gestation to date.

Appendix 12.Magnesium Sulphate Leaflet (Welsh)

Page 1 and 4.

1

Probiotegau ar gyfer Babanod a Ganwyd yn Gynamserol

Diogelu babanod cynamserol a chynnal perfedd iach

4

A oes unrhyw sefyllfaoedd lle gellir atal probiotegau yn gynnar?

Os bydd eich babi'n sâl iawn, byddwn yn rhoi'r gorau i roi probiotegau a bwydydd llaeth i 'orffwys' y perfedd a lleihau'r risg y bydd unrhyw facteria'n trosglwyddo ar draws y perfedd ac yn achosi haint.

Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod eich opsiynau ymhellach, siaradwch â'r tîm newyddenedigol sy'n gofalu am eich babi.

PERIPrem Cymru
Llwybr gofal cenedlaethol gyda'r nod o leihau marwolaethau ac anafiadau i'r ymennydd sy'n gysylltiedig â chynamseroldeb yng Nghymru.

Mae sawl elusen yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i rieni babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol neu'n sâl yn y DU gan gynnwys:

www.bliss.org.uk
www.tommys.org

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am enterocolitis madreddol (NEC) yma:
https://necsociety.org

I ddarganfod mwy am PERIPrem Cymru neu i rannu eich profiad, ewch i'n gwefan trwy ddefnyddio'r cod QR hwn.

GIG CYMRU NHS WALES

Page2 and 3

2 Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?


Mae'r wybodaeth hon ar gyfer rhieni babanod sy'n cael eu geni **cyn 32 wythnos o feichiogrwydd**, neu cyn 37 wythnos o feichiogrwydd ac sy'n pwyso llai na 1500g, a fydd yn cael probiotegau fel rhan o'u gofal newyddenedigol.

Beth yw probiotegau?

Mae probiotegau yn atchwanegiadau sy'n cynnwys bacteria cyfeillgar sy'n **cynyddu goroesiad** babanod sy'n cael eu geni cyn amser. Mae probiotegau **yn helpu i amddiffyn rhag cyflwr difrifol ar y perfedd,** a elwir yn enterocolitis madreddol (NEC), a all fod yn gysylltiedig â chael eich geni cyn amser.

Mae NEC yn gyflwr difrifol sy'n bygwth bywyd lle mae meinwe'r perfedd yn mynd yn llidus a heintiedig gan achosi babanod i fynd yn sâl iawn ac weithiau angen llawdriniaeth. Mae babanod sy'n datblygu NEC yn wynebu risgiau uwch o broblemau datblygiadol hirdymor.

Beth yw manteision probiotegau?



3 Sut mae probiotegau'n cael eu rhoi?

Rhoddir probiotegau fel ychydig bach o hylif drwy'r geg, neu drwy diwb bwydo eich babanod, i'w bol. Mae'n cael ei roi unwaith y dydd nes bod eich babi yn cyrraedd 34 wythnos oed wedi'i gywiro.

Sut mae probiotegau'n gweithio?

Mae babanod sy'n cael eu geni'n gynnar mewn perygl o ddatblygu patrymau annormal o facteria niweidiol yn eu perfedd am amrywiaeth o resymau o gymharu â babanod sy'n cael eu geni cyfnod llawn. Mae probiotegau yn annog datblygiad patrymau iach o facteria'r perfedd.

Mae annog datblygiad y bacteria cywir ym mherfedd eich babi yn fuan ar ôl genedigaeth yn helpu i'w amddiffyn rhag NEC.

Mae defnyddio probiotig priodol ar ôl genedigaeth yn....

- **Ddiogel i'ch babi**
- **Profwyd ei fod o fudd i fabanod sy'n cael eu geni'n gynnar**

Beth yw risgiau posibl probiotegau?

Mae risg fach iawn o haint difrifol a achosir gan y bacteria probiotig eu hunain. Mae'r manteision sylweddol i fabanod cynamserol sy'n cael probiotegau, o ran gwell goroesiad ac amddiffyniad rhag NEC, yn gorbwyso'r risg fach iawn hon.

Mae yna lawer o astudiaethau sy'n dangos bod probiotegau yn fuddiol i fabanod sy'n cael eu geni'n fach iawn ac yn gynamserol iawn. Fodd bynnag, nid yw'r astudiaethau hyn wedi cynnwys llawer o fabanod a anwyd yn 22 a 23 wythnos o feichiogrwydd hyd yma.

Appendix 13. Steroids Leaflet

Page 1 and 4



Page 2 and 3.

2

Who is this leaflet for?

Those at risk of delivering their baby early **before 34 weeks gestation** who need to make a decision about having a course of steroids.


Corticosteroids ("steroids") given to mothers before birth **increases survival** in premature babies and **reduces health problems** associated with being born prematurity.

This is an important decision that should be made after discussion with your maternity team. This leaflet intends to make you aware of what the treatment involves.

A single course of antenatal steroids is:

- **Safe for you and your baby**
- **Proven to benefit babies born early**

What are the benefits of Steroids?



3

How are steroids given?

The course of steroids is given via two injections, 24 hours apart, into your muscle. This can be reduced to 12 hours apart if needed.

How long after a course of steroids are they effective for?

They are most effective when given between **24 hours and 7 days** prior to birth. The positive effects of steroids can be lost if given more than 2 weeks before birth.

Can I have more than one course of steroids?

If your course of steroids was given more than two weeks ago, an additional course can sometimes be given.

This decision should be made jointly between you and your maternity team. It is not recommended to have more than two courses.

Are there are any reasons why I couldn't have steroids?

Steroids can suppress a mothers' immune system. In cases of severe infection an individualised assessment will be done by your doctor.

Appendix 14. Steroids leaflet (Welsh)

Page 1 and 4

4

Beth yw sgil-effeithiau posibl steroidau?

Ystyrir bod cwrs o steroidau yn ddiogel i chi a'ch baban.

Gall y sgil-effeithiau tymor byr i famau gynnwys y canlynol:

- Newid i symudiadau'r ffetws; cynyddu neu leihau am 1-2 ddiwrnod (rhowch wybod i'ch bydwraig ar unwaith).
- Lefelau siwgr gwaed uwch mewn mamau â diabetes.

Siaradwch â'ch tîm mamolaeth os oes gennych unrhyw bryderon.

Mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig wedi dangos sgil-effeithiau mewn babanod, gan gynnwys:

- Lefelau isel o siwgr yn y gwaed y mae angen eu monitro.
- Pwysau geni is (os caiff y baban ei eni ar ôl 37 wythnos).
- Effaith ar lesiant meddwl pan fydd yn hŷn (os caiff y baban ei eni ar ôl 37 wythnos)

Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod eich opsiynau ymhellach, siaradwch â'ch tîm mamolaeth.

Mae PERIPrem Cymru yn llwybr gofal cenedlaethol sydd â'r nod o leihau marwolaethau ac anafiadau i'r ymennydd sy'n gysylltiedig â chynamseroldeb yng Nghymru. Dilynwch y cod QR hwn am fwy o adnoddau.

Mae sawl elusen yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i rieni babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol neu'n sâl yn y DU gan gynnwys:

www.bliss.org.uk
www.tommys.org

Coleg Brenhinol Obstetreg a Gynaecoleg
Mae taflen wybodaeth i rieni ar gael trwy sganio'r cod QR hwn. (www.rcog.org.uk/for-the-public/)

Golygwyd gyda chaniatâd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

1

Steroidau Cyn-geni ar gyfer Genedigaeth Gynamserol Ddisgwyliedig

Gwella Canlyniadau

Page 2 and 3

2

Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?

Y rhai sydd mewn perygl o eni eu baban yn gynnar **cyn 34 o wythnosau o feichiogrwydd** y mae angen iddynt wneud penderfyniad ynghylch cael cwrs o steroidau.


Mae corticosteroidau ("steroidau") a roddir i famau cyn geni **yn cynyddu cyfraddau goroesi** babanod cynamserol ac yn **lleihau problemau iechyd** sy'n gysylltiedig â genedigaethau cynamserol .

Mae hwn yn benderfyniad pwysig y dylid ei wneud ar ôl trafodaeth gyda'ch tîm mamolaeth. Bwriad y daflen hon yw eich gwneud yn ymwybodol o'r hyn y mae'r driniaeth yn ei olygu.

Mae un cwrs o steroidau cyn geni:

- **Yn ddiogel i chi a'ch baban**
- **Wedi'i brofi i fod o fudd i fabanod sy'n cael eu geni'n gynnar**

Beth yw manteision Steroidau?



3

Sut mae steroidau'n cael eu rhoi?

Rhoddir y cwrs steroidau trwy ddau bigiad i'ch cyhyrau, 24 awr ar wahân i'w gilydd. Gellir lleihau'r cyfnod i 12 awr ar wahân i'w gilydd os oes angen.

Am faint o amser ar ôl y cwrs steroidau maen nhw'n effeithiol?

Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan gânt eu rhoi rhwng **24 awr a 7 diwrnod** cyn i'r baban gael ei eni. Gellir colli effeithiau cadarnhaol steroidau os cânt eu rhoi fwy na phythefnos cyn i'r baban gael ei eni.

A allaf gael mwy nag un cwrs o steroidau?

Os rhoddwyd y cwrs o steroidau i chi fwy na phythefnos yn ôl, weithiau gellir rhoi cwrs ychwanegol.

Dylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud ar y cyd rhyngoch chi a'ch tîm mamolaeth. Nid yw rhoi mwy na dau gwrs o steroidau'n cael ei argymell.

A oes unrhyw resymau pam na allaf gael steroidau?

Gall steroidau atal system imiwnedd y fam. Mewn achosion o haint difrifol bydd eich meddyg yn cynnal asesiad unigol.

Appendix 15. PERIPrem Element Poster

Appendix 16.Immedicate Management of Unplanned Preterm Labour and Birth Proforma.

Patient Name: DOB: Hospital number:	ANNUAL UPDATE 2024/25 PROMPT PRactical Obstetric Multi-Professional Training	Date:

Unplanned preterm labour and birth (continued)

After birth		TIME	✓
	Aim for optimal cord clamping		
	If baby born in an unexpectedly poor condition, neonatal team should reassess initial neonatal plan after discussion with parents		
	Liaise with neonatal unit — consider need for *ex utero* transfer		
	Consider placenta and membranes for histology		

Ongoing care	DOCUMENT DETAILS	✓		
	Location/level of care			
	Frequency of observations			
	Frequency of blood tests			
	Frequency of fluid input/output measurement			
	Thromboprophylaxis plan			✓
	Medication review	All medications prescribed		
	Debrief and document in notes	Debrief with woman and family		
		Clinical team debrief		
		Incident report required? (Y/N)		
	Any other management considerations in notes below:			

NOTES	